# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Cyflwyniad*

## 1 Diben y Ddeddf hon

(1) Diben y Ddeddf hon yw gwella—

(a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

(2) Gweler adran 24 am y diffiniadau o “trais ar sail rhywedd”, “cam-drin domestig” a “trais rhywiol”.

## 2 Trais yn erbyn menywod a merched

(1) Rhaid i berson sy’n arfer swyddogaethau perthnasol roi sylw (ynghyd â phob mater perthnasol arall) i’r angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy’n—

(a) cynyddu’r risg o drais yn erbyn menywod a merched, neu

(b) gwaethygu effaith trais o’r fath ar ddioddefwyr.

(2) Yn yr adran hon—

ystyr “swyddogaethau perthnasol” (“*relevant functions*”) yw’r swyddogaethau o dan adrannau 3, 4, 5, 6, 7(2), 8, 10, 11, 15, 16(1), 17, 19, 20, 21, 22(1) a (4), ond nid yw’n cynnwys unrhyw swyddogaethau sy’n arferadwy o dan adran 5 gan berson nad yw’n awdurdod lleol nac yn Fwrdd Iechyd Lleol;

ystyr “trais yn erbyn menywod a merched” (“*violence against women and girls*”) yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan fo’r dioddefwr yn fenywaidd.